Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Wasanaeth Ieuenctid Sir y Fflint

Cyngor Sir y Fflint
Tŷ Dewi Sant
Parc Dewi Sant
Ewlo
Sir y Fflint
CH5 3FF

**Dyddiad yr arolygiad:** Mehefin 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Cyd-destun y ddarpariaeth

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn o waith ieuenctid ychydig wythnosau cyn yr arolygiad o wasanaethau addysg llywodraeth leol yn yr awdurdod. Mae hyn yn galluogi'r negeseuon a'r gwerthusiadau o'r arolygiad o waith ieuenctid i lywio'r arolygiad o wasanaethau addysg llywodraeth leol ehangach, lle bo'n berthnasol.

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi'i leoli yng ngogledd-ddwyrain Cymru ac mae ganddo boblogaeth o ryw 155,000, yn cynnwys tua 28,000 o bobl ifanc 11-25 oed. Mae arolygwyr yn ystyried ystod eang o wybodaeth am y boblogaeth leol wrth werthuso gwasanaethau ieuenctid. Yn Sir y Fflint, mae 11.4% o blant a phobl ifanc rhwng 5 ac 15 oed o grŵp ethnig lleiafrifol, mae gan 11.2% anghenion dysgu ychwanegol (ADY), ac mae 19% o ddysgwyr yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r ffigurau hyn yn cyd-fynd yn fras â chyfartaleddau Cymru, sef 12.9%, 11.1% ac 18.7%, yn y drefn honno. Mae Gwasanaeth Ieuenctid Sir y Fflint yn rhan o gyfarwyddiaeth Addysg ac Ieuenctid yr awdurdod lleol.

Mae'r gwasanaeth yn cynnig ystod o brosiectau targedig ar gyfer pobl ifanc, yn cynnwys Ysgol Goedwig, y prosiect Gwydnwch, Cydsynio, Goliath ac Athena, cymorth digartrefedd i bobl ifanc, prosiect Nyth ar gyfer rhieni ifanc a Gwobr Dug Caeredin.

Yn ychwanegol, mae'r gwasanaeth ieuenctid yn cynnig darpariaeth mewn ysgolion, clybiau ieuenctid pontio, clybiau ieuenctid mynediad agored, a gwaith ieuenctid datgysylltiedig ar y strydoedd ar draws yr awdurdod lleol.

## Trosolwg

Mae Gwasanaeth Ieuenctid Sir y Fflint yn darparu ystod eang o gyfleoedd gwaith ieuenctid gwerthfawr sy’n cefnogi datblygiad personol, cymdeithasol ac addysgol pobl ifanc yn dda. Mae llawer o bobl ifanc yn gwella’u hyder, eu hunan-barch, eu gwydnwch a’u lles trwy fod yn rhan o waith ieuenctid. Mae pobl ifanc yn elwa ar berthnasoedd cadarnhaol â gweithwyr ieuenctid, sy’n eu hadnabod yn dda ac yn darparu cymorth ymddiriedus, heb farnu. Mae hyn yn helpu llawer o bobl ifanc i deimlo’n ddiogel, bod pobl yn gwrando arnynt a’u bod yn cael eu parchu.

Mae’r gwasanaeth yn cynnig ystod eang a difyr o ddarpariaeth, yn cynnwys gwaith ieuenctid mynediad agored, cymorth targedig, dysgu yn yr awyr agored, cyfleoedd Dug Caeredin, gwaith cyfranogi, gwirfoddoli, llais ieuenctid, prosiectau yn seiliedig ar faterion a chymorth arbenigol ar gyfer pobl ifanc bregus. Mae pobl ifanc yn datblygu medrau bywyd defnyddiol, yn ennill cymwysterau, yn ehangu eu profiadau, ac mewn llawer o achosion, yn dod yn fwy hyderus i fynegi eu barn a dylanwadu ar benderfyniadau. Mae prosiectau fel Cydsynio, Goliath ac Athena yn helpu pobl ifanc i archwilio materion sensitif a phwysig, yn cynnwys perthnasoedd iach, misogynedd, cydsynio, hunaniaeth a lles emosiynol.

Mae’r gwasanaeth yn dangos ymrwymiad cryf i gynhwysiant. Mae gweithwyr ieuenctid yn addasu darpariaeth yn dda i gynorthwyo pobl ifanc ag ystod eang o anghenion, yn cynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, pobl ifanc niwrowahanol, pobl ifanc LHDTC+, pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal, rhieni ifanc a’r rhai sydd mewn perygl o fod yn bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NACH). Mae darpariaeth yr Ysgol Goedwig yn gryfder arbennig. Mae’n darparu amgylchedd cynhwysol, o ansawdd uchel, ar gyfer dysgu yn yr awyr agored lle mae pobl ifanc yn datblygu medrau ymarferol, hyder, gwydnwch a dysgu achrededig.

Caiff pobl ifanc gyfleoedd ystyrlon i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau trwy’r Cyngor Ieuenctid, Sir y Fflint Ifanc, gwaith ymgynghori a gwirfoddoli. Mae’r cyfleoedd hyn yn helpu pobl ifanc i ddatblygu medrau arwain, cyfathrebu a dinasyddiaeth. Mae ychydig o bobl ifanc yn dylanwadu ar ddogfennau cyhoeddus a blaenoriaethau lleol. Fodd bynnag, mae ymwybyddiaeth o ystod lawn y ddarpariaeth yn anghyson ymhlith pobl ifanc a phartneriaid. Mae hyrwyddo’r cynnig gwasanaeth ieuenctid yn anghyson yn cyfyngu ar ymwybyddiaeth pobl ifanc a phartneriaid o ystod lawn y cyfleoedd sydd ar gael.

Mae’r Uwch Reolwr wedi gweithio’n effeithiol gyda staff i sefydlu gweledigaeth glir ar gyfer y gwasanaeth ieuenctid sy’n cyd-fynd yn dda â blaenoriaethau addysg a rhai corfforaethol. Mae uwch arweinwyr yn deall y cyfraniad a wna gwaith ieuenctid at nodau ehangach, yn cynnwys gwella presenoldeb a chyrhaeddiad a lleihau gwaharddiadau. Mae’r gwasanaeth yn elwa ar waith partneriaeth cryf gydag ystod eang o bartneriaid.

Mae arweinwyr wedi cryfhau hunanwerthuso trwy symud i ffwrdd oddi wrth broses sy'n cael ei chwblhau yn rhan o drefniadau'r gyfarwyddiaeth ehangach at ddull mwy teilwredig ar gyfer y gwasanaeth ieuenctid, sy'n cynnwys staff, pobl ifanc a phartneriaid ehangach. Mae ansawdd gwaith ieuenctid mynediad agored yn amrywiol. Yn y sesiynau cryfaf, mae gweithwyr ieuenctid yn darparu gweithgareddau pwrpasol ac yn ymateb yn dda i anghenion pobl ifanc, ond nid yw hyn yn gyson ar draws pob lleoliad. Nid yw prosesau datblygu'r gweithlu, cymorth a sicrhau ansawdd yn ddigon cryf eto i sicrhau darpariaeth mynediad agored o ansawdd cyson uchel.

Mae trefniadau diogelu yn briodol, ar y cyfan. Mae staff yn deall gweithdrefnau diogelu, yn cyfrannu at banelau amlasiantaethol ac yn helpu pobl ifanc i ddysgu sut i gadw eu hunain yn ddiogel. Fodd bynnag, mae cofnodion hyfforddiant diogelu yn anghywir ac wedi dyddio, ac nid yw staff yn cwblhau hyfforddiant Atal (Prevent) gorfodol o hyd.

Beth gall pobl ifanc ei ddisgwyl oddi wrth eu gwasanaeth ieuenctid

- Gweithwyr ieuenctid cefnogol sy'n gwrando ar bobl ifanc, yn eu hadnabod yn dda ac yn eu helpu i deimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu parchu a'u cynnwys.
- Ystod eang o gyfleoedd, yn cynnwys clybiau ieuenctid, dysgu yn yr awyr agored, gwobrau Dug Caeredin, gwirfoddoli, llais ieuenctid, prosiectau yn seiliedig ar faterion, profiadau preswyl a chymorth targedig.
- Help i fagu hyder, gwydnwch, lles, annibyniaeth, medrau arwain a medrau bywyd ymarferol.
- Cyfleoedd i gael dweud eu dweud, dylanwadu ar benderfyniadau a chymryd rhan mewn Cyngor Ieuenctid, ymgynghori a gweithredu cymunedol.
- Cymorth cynhwysol ar gyfer pobl ifanc â gwahanol anghenion a chefndiroedd, yn cynnwys pobl ifanc LHDTC+, pobl ifanc ag ADY, pobl ifanc niwroamrywiol, rhieni ifanc a'r rhai sydd mewn perygl o fod yn bobl NACH.
- Prosiectau sy'n helpu pobl ifanc i archwilio materion pwysig fel perthnasoedd iach, cydsynio, hunaniaeth, misogynedd, iechyd meddwl, dinasyddiaeth a chadw'n ddiogel.

Beth efallai na allwch chi ei gael yn eich gwasanaeth ieuenctid

- Yr un ansawdd o waith ieuenctid mynediad agored ym mhob lleoliad, gan fod arfer yn gryfach mewn rhai clybiau ieuenctid nag eraill.
- Gwybodaeth glir am yr holl gyfleoedd sydd ar gael, gan nad yw ymwybyddiaeth o'r cynnig gwasanaeth ieuenctid llawn yn gyson eto ymhlith pobl ifanc a phartneriaid.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu’r gwasanaeth i barhau i wella, sef:

A1 Sicrhau bod hyfforddiant Atal yn cael ei gwblhau gan bob un o’r staff a bod hyfforddiant diogelu gorfodol yn cael ei gofnodi’n gywir, yn cael ei ddiweddaru’n gyson ac yn cael ei fonitro’n agos

A2 Gwella cysondeb ac ansawdd darpariaeth gwaith ieuenctid mynediad agored, gan gynnwys trwy gryfhau prosesau datblygu’r gweithlu, cymorth a sicrhau ansawdd

A3 Cryfhau hyrwyddo a marchnata’r cynnig gwasanaeth ieuenctid i wella ymwybyddiaeth ac ymestyn ymgysylltu â phobl ifanc a phartneriaid

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y darparwr yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif werthusiad

### Sut mae gwaith ieuenctid yn helpu pobl ifanc i gyflawni eu potensial?

### Addysgol

Mae llawer o bobl ifanc sy’n cymryd rhan mewn gweithgareddau gwaith ieuenctid yn gwella’u hyder a’u hunan-barch. Mae’r rhai sy’n mynychu gwaith ieuenctid yn yr ysgol yn dod yn llai gorbryderus, yn ymddwyn yn well ac yn gwella’u presenoldeb. Maent yn ennill dealltwriaeth well o’u teimladau a’u hemosiynau ac yn gwella’u lles. Mae pobl ifanc yn dysgu gwybodaeth hanfodol am gamddefnyddio sylweddau, materion LHDTC+, iechyd rhywiol, a pherthnasoedd iach, sy’n ategu gwaith ysgolion trwy ddarparu mannau anffurfiol, ymddiriedus lle gallant archwilio testunau sensitif yn agored gyda gweithwyr ieuenctid. Mae pobl ifanc fregus yn ymgysylltu â gweithwyr ieuenctid ar raglen Cydsynio (Consent) ac yn archwilio materion fel urddas mislif ac ymddygiadau rhywiol. Mae pobl ifanc hefyd yn ennill medrau defnyddiol trwy gyd-ddatblygu deunyddiau a gweithgareddau hyfforddi ar gyfer pobl ifanc eraill.

Trwy gymryd rhan yng nghynllun mynediad agored Dug Caeredin, mae pobl ifanc yn cyfarfod yn gymdeithasol ac yn gwneud ffrindiau newydd, tra’n hyfforddi i gymryd rhan yn y gwobrau. Maent yn gwella’u ffitrwydd a’u gwydnwch ac yn ennill medrau ymarferol fel darllen map, coginio yn y gwyllt a dysgu sut i’w cadw eu hunain yn ddiogel. Mae’r rhai sy’n

cymryd rhan yn y gwobrau uwch yn caffael medrau arwain sy'n ddefnyddiol ar gyfer cyflogaeth a datblygiad personol. Maent yn ehangu eu gorwelion trwy wirfoddoli ac yn magu hyder i siarad yn gyhoeddus. Mae pobl ifanc yn gwneud cynnydd da trwy'r gwobrau, gan ennill cymwysterau ar lefelau efydd, arian ac aur. Mae ychydig ohonynt yn ennill gwobr Arweinydd Ifanc Newydd sy'n cyfrannu pwyntiau Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau (UCAS) ar gyfer cais prifysgol neu tuag at gais i'r lluoedd arfog. Mae ychydig ohonynt yn cynorthwyo pobl ifanc eraill ac yn gwirfoddoli mewn clybiau ieuenctid. Mae pob un ohonynt yn falch o'r hyn y maent wedi'i gyflawni. Disgrifiodd un person ifanc sut mae hi wedi magu hyder i deithio i Wlad Thai ar ei phen ei hun i gymryd rhan mewn cwrs plymio, ac roedd un arall wedi cael cyflogaeth ran-amser yn sgil ei phrofiad gwirfoddoli.

Mae'r bobl ifanc sy'n aml yn wynebu anfantais yn cymryd rhan mewn Gwersyll Eira, yn ennill medrau, profiad a chymwysterau na fyddent fel arfer yn agored iddynt. Maent yn datblygu eu ffitrwydd, eu gwydnwch, eu hunanddibyniaeth a'u medrau arwain, sydd o fudd i'w hiechyd meddwl. Maent yn dangos gofal a phryder am eu cyfoedion sy'n cael ei feithrin o fewn yr amgylchedd chwaraeon eira hamdden. Maent yn ennill cymwysterau yn gysylltiedig â sector sy'n cyfrannu at eu cyflawniad addysgol cyffredinol.

Mae pobl ifanc sy'n cymryd rhan yn y ddarpariaeth atal digartrefedd yn dysgu gwybodaeth hanfodol am dai fel cyfrifoldebau landlord a chymorth ariannol sydd ar gael tra'n dysgu am gyllidebu a choginio, hefyd. Trwy greu llyfrynnau ryseitiau deniadol ac ymarferol, maent hefyd yn gwella'u medrau rhifedd a llythrennedd ac yn ennill cymwysterau defnyddiol.

Mae'r rhai sy'n cymryd rhan ym mhrosiect yr Ysgol Goedwig yn ennill ystod eang o fedrau a gwybodaeth am natur, cadwraeth a rheoli tir. Maent yn cael mynediad at y lleoliad awyr agored ac yn ffynnu mewn amgylchedd ymarferol pan y gallent fod wedi gweld lleoliadau addysg traddodiadol yn heriol. Mae llawer ohonynt yn ennill cymwysterau trwy gynllun Gwobr John Muir.

Mae pobl ifanc yn gwella ac yn ymestyn eu defnydd o'r Gymraeg trwy gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau gwasanaeth ieuenctid a gweithgareddau partneriaid dan gontract. Mae pobl ifanc yn defnyddio ac yn datblygu'r Gymraeg trwy ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, gwaith llais ieuenctid dwyieithog, gweithgareddau diwylliannol a gwirfoddoli. Mewn ychydig o enghreifftiau, mae pobl ifanc yn defnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau ymarferol, fel gweithgarwch hyfforddi neu waith ieuenctid, sy'n eu helpu i fagu hyder a chydnabod gwerth y Gymraeg y tu hwnt i addysg ffurfiol. Ni chaiff y cyfleoedd hyn eu hymgorffori'n gyson ar draws y cynnig gwaith ieuenctid ehangach.

## Mynegiannol

Mae pobl ifanc mewn lleoliadau mynediad agored yn mynegi eu hunain trwy weithgareddau celf, crefft a chwaraeon. Maent yn gwneud cylchau allweddi ac anrhegion Sul y Tadau gan ddefnyddio medrau pyrograffeg manwl gywir neu'n creu celf ddeniadol ar gyfer ewinedd. Mae pobl ifanc eraill yn mynegi eu hunain yn hyderus mewn gweithgareddau dawns. Mae pobl ifanc sy'n creu breichledi cyfeillgarwch yn sgwrsio â'i gilydd a gweithwyr ieuenctid am werth cyfeillgarwch.

Ym mhrosiect yr Ysgol Goedwig, mae pobl ifanc yn defnyddio gallu artistig i greu bagiau canfas deniadol gyda phrintiau dail, a baneri rystig. Maent yn datblygu medrau arloesol i adeiladu cuddfannau yn y goedwig ac yn mynegi eu gwerthfawrogiad o fywyd yn yr awyr agored.

Mae pobl ifanc LHDTC+ yn mynegi eu hunaniaeth yn hyderus trwy waith celf lliwgar.

## Cyfranogol

Mae pobl ifanc mewn darpariaeth mynediad agored yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau ar y rhaglen weithgareddau ar gyfer y clwb bob tri mis, ac mewn ychydig o achosion, yn cymryd rhan mewn rhedeg y clwb.

Trwy gymryd rhan yn Sir y Fflint Ifanc, mae pobl ifanc yn datblygu eu dealltwriaeth o ddemocratiaeth leol a chenedlaethol a chyfrifoldeb dinesig. Maent yn magu hyder ac yn deall cyfrifoldebau cynrychioli eu cyfoedion. Trwy ddefnyddio Materion Misol y Comisiynydd Plant, mae pobl ifanc yn dechrau trafodaeth â'r awdurdod lleol ac yn cael adborth ar gamau a gymerwyd i fynd i'r afael â materion. Daw'r materion hyn o gyd-destun ysgol yn bennaf, fel materion yn ymwneud â gwisg ysgol, toiledau a fepio. Mae'r bobl ifanc yn frwdfrydig a huawdl. Maent yn magu hyder i siarad yn gyhoeddus a chodi materion mewn lleoliadau ffurfiol, er enghraifft ym Mhwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid y Cyngor.

Trwy'r prosiect gwirfoddolwyr ifanc, dysgodd pobl ifanc am sut i gofrestru a sut i bleidleisio yn etholiadau diweddar y Senedd. Buont yn craffu ar faniffestos y pleidiau ac yn trafod materion gyda'u cyfoedion. Mae'r prosiect gwirfoddolwyr ifanc yn helpu pobl ifanc i wneud eu hunain yn ymwybodol o faterion cymunedol lleol sy'n effeithio arnyn nhw, fel cludiant a goleuadau stryd. Maent yn astudio manylion o ymgynghoriadau gyda phobl ifanc, yn dadansoddi data ac yn adrodd yn ôl i'r Cyngor Ieuenctid, sydd yn ei dro yn adrodd yn ôl i Sir y Fflint Ifanc. Maent hefyd yn craffu ar ddogfennau i wneud yn siŵr eu bod yn cael eu hysgrifennu mewn iaith sy'n hygyrch i bobl ifanc. Mae pobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau paratoi yn datblygu galluoedd pwysig, yn cynnwys medrau arwain a fydd yn eu helpu wrth iddynt aeddfedu i fyd oedolion.

## Cynhwysol

Mae pobl ifanc sy'n niwrowahanol neu sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn ennill gwybodaeth ymarferol, gwydnwch ac yn meithrin eu hunan-barch trwy amrywiaeth o weithgareddau awyr agored. Maent yn meithrin annibyniaeth i gwblhau tasgau ymarferol ac artistig yn narpariaeth yr Ysgol Goedwig. Mae pobl ifanc sy'n mynychu darpariaeth addysg amgen, nad ydynt wedi ffynnu mewn lleoliadau addysg traddodiadol, yn gwella'u hymddygiad a'u hunan-barch trwy fod yng nghwmni gweithwyr ieuenctid a chymryd rhan mewn gweithgareddau gwaith ieuenctid.

Mae pobl ifanc LHDTC+ yn magu hyder i fynegi eu hunaniaethau ac yn datblygu ymdeimlad o berthyn trwy glybiau yn yr ysgol. Ochr yn ochr â phobl ifanc eraill, maent yn dathlu eu cymuned yn nigwyddiadau blynyddol 'Just Be' Pride, sy'n cael eu cefnogi gan ysgolion a gweithwyr ieuenctid.

Mae rhieni ifanc ynysig yn datblygu rhwydwaith cymorth, gan rannu materion a phroblemau sy'n effeithio arnyn nhw. Maent yn dysgu am strategaethau a medrau rhianta defnyddiol trwy fynychu prosiect NYTH.

Mae pobl ifanc sy'n mynychu clybiau pontio yn dysgu delio â'r llwybr o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Maent yn gwella'u gwydnwch a gall llawer ohonynt ffynnu o fewn sefydliad addysg mawr.

## Grymusol

Mae pobl ifanc yn datblygu'r hyder, y medrau a'r annibyniaeth i deithio'n ddiogel o fewn y Deyrnas Unedig a thramor. Mae gweithwyr ieuenctid yn eu cynorthwyo i gynllunio teithiau, rheoli risgiau ac ymateb i sefyllfaoedd anghyfarwydd, gan eu helpu i ddod yn fwy hunanddibynnol a dyfeisgar. Maent yn hyderus i siarad am eu rhyngweithio â'r gwasanaeth ieuenctid a'u hanturiaethau ehangach o flaen pobl ifanc eraill mewn ysgolion ac â chynulleidfaoedd cyhoeddus mawr gan rannu eu hangerdd a'u balchder yn eu cyflawniadau.

Mae pobl ifanc sy'n cymryd rhan ym mhrosiectau Cydsynio, Goliath ac Athena yn dechrau archwilio, cwestiynu a dod i ddeall goblygiadau safbwyntiau tocsig am wrywdod a rôl menywod sy'n cael eu hyrwyddo ar gyfryngau cymdeithasol gan ddylanwadwyr ar-lein. Mae pobl ifanc yn datblygu dealltwriaeth ddyfnach o'u safbwyntiau, eu teimladau a'u hemosiynau trwy eu rhyngweithio â gweithwyr ieuenctid, a gefnogir gan gynyrchiadau drama a chyflwyniadau sy'n procio'r meddwl.

### Ciplun: Cynorthwyo pobl ifanc i herio agweddau niweidiol

Mae Gwasanaeth Ieuenctid Sir y Fflint yn ymateb yn graff i faterion sy'n effeithio ar berthnasoedd, hunaniaeth a lles pobl ifanc. Trwy brosiectau Cydsynio, Goliath ac Athena,

mae gweithwyr ieuenctid yn helpu pobl ifanc i archwilio themâu cyffredin fel gwrywdod tocsig, ffeministiaeth, cydsynio, perthnasoedd iach, materion LHDTC+, iechyd rhywiol, iechyd meddwl a dylanwad ar-lein.

Mae gweithwyr ieuenctid yn cynllunio'r rhaglenni yn ofalus er mwyn i bobl ifanc allu trafod materion sensitif yn onest heb deimlo'u bod yn cael eu beio na'u barnu. Mae prosiect Cydsynio, a gyflwynir gyda phartneriaid, yn archwilio materion sensitif trwy gynyrchiadau drama a chyflwyniadau. Mae prosiect Goliath yn cyfuno gweithdai trafod gyda gweithgarwch bocsio neu gampfa, sy'n rhoi ffordd ymarferol a difyr i ddynion ifanc fyfyrio ar agweddau, ymddygiad a lles emosiynol. Mae prosiect Athena yn darparu man cefnogol i fenywod ifanc archwilio hunan-barch, hyder, perthnasoedd a hunaniaeth.

Mae'r rhaglenni yn helpu pobl ifanc i feddwl yn feirniadol am naratifau ar-lein niweidiol a datblygu agweddau mwy parchus tuag atyn nhw eu hunain a phobl eraill. Mae ychydig o bobl ifanc wedi newid eu hymddygiad, wedi gwella presenoldeb, wedi lleihau camddefnyddio sylweddau neu wedi gofyn am fwy o gymorth unigol o ganlyniad i'r gwaith.

Mae pobl ifanc sy'n mynychu amgylchedd diogel clybiau a gweithgareddau LHDTC+ yn magu hyder i fynegi eu hunain a bod yn falch o'u hunaniaethau.

Mae llawer o bobl ifanc sy'n mynychu darpariaeth Gwasanaeth Ieuenctid Sir y Fflint wedi eu grymuso i ddeall nhw eu hunain a'r materion sy'n effeithio arnynt. Maent yn gwella'u hyder, eu lles a'u hunan-barch, ac yn ehangu eu profiadau. Mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd mewn addysg a chyflogaeth, yn gefnogol i'w cyfoedion ac yn chwarae rolau gwerthfawr yn eu cymunedau.

## Beth gall pobl ifanc ei ddisgwyl o ddarpariaeth gwaith ieuenctid

Mae'r rhan fwyaf o weithwyr ieuenctid yn meithrin perthnasoedd cryf a chefnogol â phobl ifanc, sy'n elwa ar berthnasoedd hynod gadarnhaol ac ymddiriedus â gweithwyr ieuenctid. Ar draws ystod o leoliadau, dywed pobl ifanc eu bod yn teimlo y gwrandewir arnynt, a'u bod yn cael eu parchu a'u cefnogi. Maent yn gwerthfawrogi cysondeb gweithwyr ieuenctid a'r gefnogaeth a gânt heb iddynt gael eu barnu, sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at eu lles ac yn annog ymgysylltiad cynaledig. Mae gweithwyr ieuenctid yn adnabod pobl ifanc yn dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'u cefndiroedd, eu hamgylchiadau a'u hanghenion unigol. Er bod y cryfderau hyn yn amlwg ar draws y gwasanaeth, gall amrywiadau o ran arfer ac adrodd rhwng staff arwain at anghysondeb yn ansawdd y ddarpariaeth sydd ar gael i bobl ifanc, yn enwedig mewn clybiau ieuenctid mynediad agored.

Mae gweithwyr ieuenctid yn meddu ar gymwysterau addas, ac wedi cael hyfforddiant priodol, sy'n eu galluogi i ymateb yn hyderus i anghenion pobl ifanc a chynnal amgylchedd diogel a chefnogol. Mae eu harbenigedd yn cyfrannu'n gadarnhaol at ansawdd profiadau

gwaith ieuenctid ac yn cefnogi pobl ifanc yn effeithiol. Mae gweithwyr ieuenctid yn dangos ymrwymiad cryf i gynhwysiant trwy addasu gweithgareddau a dulliau i ddiwallu anghenion unigol. Mae eu harfer ymatebol yn galluogi pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol i gymryd rhan yn llwyddiannus ochr yn ochr â'u cyfoedion.

Mae gweithwyr ieuenctid yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o weithdrefnau diogelu ac yn sicrhau bod pobl ifanc yn deall cyfyngiadau cyfrinachedd. Mae hyn yn helpu creu diwylliant lle gall pobl ifanc ofyn am gymorth yn ddiogel ac yn hyderus.

Caiff pobl ifanc gyfleoedd ystyrlon i ddylanwadu ar benderfyniadau a llunio darpariaeth. Trwy fecanweithiau fel y prosiect Gwirfoddolwyr Ifanc, y Cyngor Ieuenctid a Sir y Fflint Ifanc, gweithgareddau ymgynghori a phrosesau cynllunio rhaglenni, maent yn cyfrannu at benderfyniadau am weithgareddau, blaenoriaethau a datblygu gwasanaethau. O ganlyniad, mae pobl ifanc yn teimlo bod eu barn yn cael ei gwerthfawrogi ac y gallant wneud gwahaniaeth o fewn eu cymunedau. Mae'r Cyngor Ieuenctid yn darparu llwyfan effeithiol ar gyfer cymryd rhan. Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn ehangu cyfleoedd cyfranogi yn rhagweithiol er mwyn cryfhau cynrychiolaeth lleisiau pobl ifanc ymhellach.

Mae gweithwyr ieuenctid yn cynllunio darpariaeth yn ystyriol ac yn sicrhau bod gweithgareddau'n parhau yn berthnasol i bobl ifanc. Ar draws ystod o leoliadau, mae pobl ifanc yn cyfrannu at gynllunio a gwneud penderfyniadau, gan helpu llunio rhaglenni a gweithgareddau. Gall pobl ifanc nodi enghreifftiau lle mae eu barn wedi dylanwadu ar y profiadau sydd ar gael iddynt.

Mae gweithwyr ieuenctid yn ymestyn eu hargaeledd y tu hwnt i'r clwb ieuenctid trwy waith allymestyn a datgysylltiedig, gan gryfhau ymgysylltiad â phobl ifanc na fyddent efallai'n defnyddio darpariaeth, fel arall. Mae gweithwyr ieuenctid yn wybodus am wasanaethau cymorth lleol ac yn darparu llwybrau cyfeirio ac atgyfeirio priodol, gan helpu pobl ifanc i fanteisio ar gymorth arbenigol, pan fydd angen.

Mae gweithwyr ieuenctid yn helpu pobl ifanc i gydnabod a dathlu eu cyflawniadau, ac adeiladu arnynt. Mae tystysgrifau, digwyddiadau graddio, cyfleoedd achredu a dathliadau llwyddiant cyhoeddus yn cyfrannu'n gadarnhaol at hyder pobl ifanc a'u hymdeimlad o gyflawniad.

Mae'r gwasanaeth yn darparu ystod amrywiol o brofiadau gwaith ieuenctid sy'n ymateb yn dda i anghenion, diddordebau a dyheadau amrywiol pobl ifanc. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys gwaith ieuenctid cyffredinol, ymyriadau targedig, dysgu yn yr awyr agored, cyfleoedd cyfranogi, gwaith yn seiliedig ar faterion, profiadau gwirfoddol ac arwain. Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant yn briodol trwy ystod o weithgareddau a phrofiadau.

Mae pobl ifanc yn elwa ar brofiadau difyr a phwrpasol sy’n eu hannog i archwilio materion sy’n berthnasol i’w bywydau a’u cymunedau. Mae gweithgareddau a phrosiectau yn mynd i’r afael â themâu fel lles, perthnasoedd iach, misogynedd, hunaniaeth, cyfranogi yn y gymuned a dinasyddiaeth, sy’n helpu pobl ifanc i ymgysylltu â materion cyfoes mewn ffyrdd ystyrlon. Mae prosiectau Cydsynio, Goliath ac Athena yn cynorthwyo pobl ifanc i ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o faterion fel misogynedd, cydraddoldeb rhywedd, perthnasoedd iach a pharch. Mae’r prosiectau’n darparu cyfleoedd gwerthfawr i bobl ifanc herio stereoteipiau, myfyrio ar faterion cymdeithasol ac ystyried effaith eu gweithredoedd ar bobl eraill. O ganlyniad, mae llawer o gyfranogwyr yn datblygu mwy o hyder, empathi ac ymwybyddiaeth o werthoedd cynhwysol, sy’n cefnogi eu datblygiad personol a chymdeithasol.

Mae’r gwasanaeth yn sicrhau bod pobl ifanc yn gallu elwa ar ystod eang o gyfleoedd y tu hwnt i weithgareddau clwb ieuenctid traddodiadol. Mae’r rhain yn cynnwys profiadau preswyl lleol a rhyngwladol, er enghraifft ymweliadau yn lleol â Gwersyll yr Urdd yng Nglanllyn a thrwy Wersyll Eira i Andorra. Yn ychwanegol, mae dysgu yn yr awyr agored, gwirfoddoli, Gwobr Dug Caeredin, ymgyrchoedd, siaradwyr gwadd a phrosiectau cymunedol yn ehangu gorwelion pobl ifanc, i ddatblygu medrau newydd a mynd ati i gymryd rhan o fewn eu cymunedau.

Mae trefniadau pontio yn cynorthwyo pobl ifanc yn effeithiol i elwa o ac i ymgysylltu gyda’r ddarpariaeth. Mae gweithgareddau rhagarweiniol a gwaith partneriaeth yn helpu pobl ifanc i fagu hyder a sefydlu perthnasoedd i baratoi ar gyfer y camau nesaf.

Mae’r gwasanaeth yn cynnig rhaglen eang a difyr o brofiadau gwaith ieuenctid sy’n diwallu anghenion a diddordebau pobl ifanc yn dda. Mae ymwybyddiaeth o ystod lawn y ddarpariaeth yn anghyson ymhlith pobl ifanc a phartneriaid. Mae staff yn defnyddio ystod o ddulliau i hyrwyddo’r gwasanaeth, yn cynnwys cyfryngau cymdeithasol, cyfraniadau at wersi a gwasanaethau mewn ysgolion, cylchlythyrau a sioeau teithiol cymunedol. Fodd bynnag, ni chaiff y dulliau hyn eu cydlynu’n gyson ar draws holl feysydd y ddarpariaeth. O ganlyniad, nid yw pobl ifanc a phartneriaid bob amser yn meddu ar ddealltwriaeth ddigon clir o ehangder y cyfleoedd sydd ar gael, gan gynnwys prosiectau targedig fel Ysgol Goedwig. Mae presenoldeb yn isel mewn ychydig o feysydd y ddarpariaeth, ac mae hyrwyddo anghyson yn cyfyngu ar y graddau y mae pobl ifanc yn achub ar gyfleoedd sydd fwyaf perthnasol i’w hanghenion a’u diddordebau. Mae hefyd yn lleihau cyfleoedd i bartneriaid gyfeirio pobl ifanc yn effeithiol.

Mae gweithwyr ieuenctid yn gwneud defnydd effeithiol o adnoddau, cyfleusterau ac arbenigedd sydd ar gael i greu profiadau gwaith ieuenctid cadarnhaol. Mae’r Ysgol Goedwig yn adnodd o safon uchel sy’n ymestyn ystod y profiadau dysgu sydd ar gael i bobl ifanc. Mae’r amgylchedd coetir yn darparu man dysgu unigryw ac ysgogol sydd gryn dipyn yn wahanol i leoliadau gwaith ieuenctid mwy traddodiadol.

### Ciplun: Ysgol Goedwig – darparu cyfleoedd dysgu cynhwysol yn yr awyr agored

Mae Ysgol Goedwig Gwasanaeth Ieuenctid Sir y Fflint yn darparu amgylchedd dysgu neilltuol a chynhwysol yn yr awyr agored sy'n cynorthwyo pobl ifanc ag ystod eang o anghenion a galluoedd. Mae'r safle coetir datblygedig yn cynnig man cyfoethog a difyr lle gall pobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol, uniongyrchol sy'n wahanol i amgylcheddau dysgu mwy traddodiadol.

Caiff y ddarpariaeth ei harwain gan weithwyr ieuenctid medrus a phrofiadol sy'n addasu gweithgareddau'n effeithiol i ddiwallu anghenion unigol, yn cynnwys anghenion pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol ac anableddau corfforol. Caiff hygyrchedd ei wella trwy ddefnyddio cymhorthion cyfathrebu gweledol, adnoddau Iaith Arwyddion Prydain a chyfleoedd anffurfiol yn Gymraeg ar draws y safle.

Mae pobl ifanc yn datblygu ystod eang o fedrau ymarferol a phersonol trwy weithgareddau fel crefftau gwersylla, gwaith coed, prosiectau amgylcheddol a garddwriaeth. O ganlyniad, maent yn gwella'u cyfathrebu, eu hyder, eu gwydnwch, eu hamynedd a'u dyfalbarhad, tra'n datblygu dealltwriaeth well o gynaliadwyedd a'r amgylchedd naturiol.

Mae'r rhaglen yn hyrwyddo dilyniant a chyflawniad trwy ddysgu achrededig, yn cynnwys Gwobr John Muir, ac yn mesur y pellter y mae pobl ifanc wedi'i deithio trwy astudiaethau achos ac adolygiadau cynnydd unigol. Caiff pobl ifanc gyfleoedd hefyd i ymgymryd â chyfrifoldebau arwain trwy'r rhaglen Arweinwyr Ifanc, cefnogi eu cyfoedion a datblygu medrau arwain gwerthfawr.

Mae'r Ysgol Goedwig yn cyfoethogi cynnig y gwasanaeth ac yn darparu cyfleoedd ystyrlon i bobl ifanc ddysgu, cyflawni a ffynnu mewn lleoliad ysbrydoledig yn yr awyr agored.

Mae'r gwasanaeth yn dangos ymrwymiad cryf i degwch a chynhwysiant. Mae gweithwyr ieuenctid yn addasu darpariaeth yn effeithiol i ddiwallu anghenion unigol ac yn darparu cymorth priodol ar gyfer pobl ifanc o ystod eang o gefndiroedd ac amgylchiadau. Mae pobl ifanc yn dweud eu bod yn hoffi mynychu, yn teimlo'u bod yn cael eu derbyn ac yn gallu cymryd rhan yn llawn mewn gweithgareddau a phrofiadau.

Mae'r gwasanaeth yn ymgysylltu'n llwyddiannus ag ystod amrywiol o bobl ifanc, yn cynnwys y rhai a allai fod yn fregus. Mae hyn yn cynnwys pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal, pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol, pobl ifanc niwrowahanol a'r rhai sy'n profi gorbryder, lles gwael neu heriau iechyd meddwl. Mae darpariaeth dargedig fel y prosiect Gwydnwch ar gyfer pobl ifanc sydd mewn perygl o ddod yn bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NACH) yn dangos ymrwymiad cryf y gwasanaeth i gynhwysiant ac ymyrraeth gynnar.

Mae gweithwyr ieuenctid yn nodi ac yn ymateb yn dda i rwystrau a allai atal pobl ifanc rhag cymryd rhan. Mae cymorth ymarferol, allymestyn targedig, llwybrau atgyfeirio effeithiol a gwaith partneriaeth cryf yn helpu ymgysylltu â phobl ifanc a allai fod yn anodd eu cyrraedd, fel arall. Mae cydweithio agos â gwasanaethau addysg, iechyd, digartrefedd a chymorth yn galluogi nodi anghenion yn gynnar, a chydlynu cymorth yn effeithiol.

Mae'r gwasanaeth yn ymateb yn dda i anghenion a bylchau a nodwyd mewn darpariaeth trwy ddatblygu rhaglenni targedig a chyfleoedd teilwredig. Mae mentrau fel prosiect Gwydnwch, darpariaeth NYTH ar gyfer rhieni ifanc a sesiynau LHDTC+ yn darparu cymorth teilwredig a phrofiadau gwerthfawr ar gyfer pobl ifanc. Mae gweithwyr ieuenctid yn addasu gweithgareddau'n effeithiol i sicrhau bod pobl ifanc ag ystod eang o alluoedd ac anghenion yn gallu cymryd rhan yn llwyddiannus. Mae'r defnydd o gymhorthion cyfathrebu gweledol ac Iaith Arwyddion Prydain yn yr Ysgol Goedwig yn gwella hygyrchedd ymhellach ac yn cefnogi cyfranogiad cynhwysol ar gyfer dysgwyr amrywiol. Mae'r dull ymatebol hwn yn hyrwyddo perthyn, lles ac ymgysylltu cynaledig.

Mae pobl ifanc fregus yn elwa ar ystod eang o gyfleoedd dilyniant, yn cynnwys gwirfoddoli, rolau arwain, dysgu achrededig, cymwysterau ac ymglymiad cymunedol. Mewn llawer o achosion, mae cymryd rhan mewn gwaith ieuenctid yn ysgogi datblygiad personol, cymdeithasol ac addysgol pellach.

Mae gwaith partneriaeth yn cryfhau deilliannau ar gyfer pobl ifanc fregus trwy gynnig cyfle iddynt fanteisio ar gymorth, cyfleoedd dysgu a llwybrau dilyniant ychwanegol. Mae dulliau cydweithredol yn cyfrannu'n gadarnhaol at welliannau mewn lles, ymgysylltu, presenoldeb ac ymddygiad.

## Arwain a gwella

Mae'r Uwch Reolwr ar gyfer Gwasanaeth Ieuenctid Sir y Fflint wedi gweithio'n effeithiol gyda staff i sefydlu gweledigaeth glir sy'n cyd-fynd yn dda â blaenoriaethau addysg a chorfforaethol. Mae uwch arweinwyr yn darparu cymorth strategol cryf ac yn cydnabod y cyfraniad gwerthfawr a wna gwaith ieuenctid at wella presenoldeb, cyrhaeddiad a lleihau gwaharddiadau. Mae aelodau etholedig yn gefnogol i'r gwasanaeth ieuenctid, at ei gilydd. Mae'r aelod cabinet yn hyrwyddo'r gwasanaeth â brwdfrydedd a dealltwriaeth, tra bod aelodau etholedig ehangach yn parhau i ddatblygu eu gwybodaeth am waith ieuenctid a'i effaith.

Mae arweinwyr yn cryfhau prosesau strategol, yn cynnwys hunanwerthuso, ac mae'r rhain yn dechrau darparu sylfaen gliriach ar gyfer nodi blaenoriaethau a chefnogi gwelliant ar draws y gwasanaeth. Mae arweinwyr yn cynllunio darpariaeth yn ystyriol, gan ddefnyddio ystod eang o dystiolaeth i nodi angen a thargedu adnoddau'n effeithiol. Mae data fel Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) a chanfyddiadau o'r Rhwydwaith Ymchwil

Iechyd mewn Ysgolion, ochr yn ochr â gwybodaeth leol, yn cael eu defnyddio'n dda i lunio darpariaeth ymatebol.

Ceir cysylltiad cryf a phwrpasol rhwng gwasanaethau chwarae ac ieuenctid. Mae clybiau pontio ar gyfer pobl ifanc rhwng 9 ac 13 oed yn bont werthfawr i ddarpariaeth ieuenctid, sy'n cefnogi hyder a pharhad ymgysylltu. Mae staff yn defnyddio gwybodaeth atgyfeirio ysgolion yn effeithiol i ddarparu cymorth targedig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn bobl NACH.

Mae arweinwyr yn datblygu ystod o ddulliau i hyrwyddo'r gwasanaeth, yn cynnwys partneriaethau ag ysgolion, cyfryngau cymdeithasol a sesiynau targedig. Mae'r dulliau hyn yn helpu codi ymwybyddiaeth am y cymorth sydd ar gael, er nad ydynt yn cael eu hyrwyddo'n gyson ar draws pob un o feysydd y ddarpariaeth. Lle mae gan weithwyr ieuenctid gysylltiadau cryf ag ysgolion a'r ddarpariaeth mynediad agored, mae presenoldeb mewn clybiau ieuenctid yn uwch. Er enghraifft, mae presenoldeb yng nghlwb ieuenctid Cei Connah yn gryf, ac yn cael ei gefnogi gan rôl yn ystod y dydd y gweithiwr ieuenctid yn yr ysgol leol, sy'n helpu hyrwyddo'r clwb a meithrin perthnasoedd â phobl ifanc.

Mae'r gwasanaeth wedi sefydlu partneriaethau cryf ac effeithiol sy'n cael eu gwerthfawrogi gan bartneriaid ac yn ymestyn ehangder y cyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc. Caiff partneriaethau eu ffurfioli trwy gytundebau lefel gwasanaeth cadarn sy'n cael eu monitro a'u hadolygu. Enghraifft o'r dull cydweithredol hwn yw darparu cyfleoedd chwaraeon ar y cyd â Gwella, sy'n ymestyn y cynnig ieuenctid ar draws yr awdurdod lleol.

Mae'r gwasanaeth chwarae yn darparu llwybrau gwerthfawr ar gyfer pobl ifanc i mewn i wirfoddoli a chyflogaeth. Mae ychydig o'r bobl ifanc sy'n ymgysylltu i ddechrau trwy gynlluniau chwarae yn symud ymlaen i rolau am dâl fel gweithwyr ieuenctid rhan-amser. Mae hyn yn cefnogi dull buddiol 'tyfu', sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at ddatblygu'r gweithlu a chynaliadwyedd.

Mae arweinwyr wedi cryfhau hunanwerthuso trwy symud i ffwrdd oddi wrth broses sy'n cael ei chwblhau yn rhan o drefniadau ehangach y gyfarwyddiaeth tuag at ddull mwy teilwredig ar gyfer y gwasanaeth ieuenctid, sy'n cynnwys staff, pobl ifanc a phartneriaid ehangach. Mae staff yn cyfrannu at hunanwerthuso trwy eu meysydd gwasanaeth unigol a thrwy gyfarfodydd staff. Mae hyn yn helpu arweinwyr i ddatblygu dealltwriaeth ehangach o gryfderau a meysydd i'w gwella ar draws y gwasanaeth.

Mae'r hunanwerthusiad yn cysylltu'n gydlynus â chynllun gweithredu'r gwasanaeth. Mae hyn yn darparu llinellau atebolrwydd clir ar gyfer staff ac yn helpu sicrhau yr eir i'r afael â blaenoriaethau a nodwyd. Mae rhaglenni yn adlewyrchu anghenion pobl ifanc, at ei gilydd,

a cheir tystiolaeth fod pobl ifanc yn cael eu cynnwys mewn cynllunio ac ymgynghori. Mae arweinwyr yn cydnabod bod angen i ddarpariaeth aros yn hyblyg ac yn ymatebol.

Mae arweinwyr wedi nodi amrywiad yn ansawdd darpariaeth mynediad agored trwy eu gweithgareddau hunanwerthuso a monitro. Maent yn cydnabod, er bod arfer effeithiol mewn darpariaeth mynediad agored, nid yw hyn yn gyson ar draws pob lleoliad. Mae arweinwyr yn dechrau defnyddio enghreifftiau o arfer gryfach i egluro disgwyliadau, cefnogi datblygiad staff a chryfhau cysondeb ar draws y gwasanaeth, er mai megis dechrau y mae'r gwaith hwn.

Mae arweinwyr yn dechrau cryfhau eu prosesau ar gyfer nodi bylchau mewn darpariaeth. Maent hefyd yn datblygu eu dulliau i fesur effaith y ddarpariaeth ar bobl ifanc fel bod y rhain yn dod yn fwy systematig a chyson ar draws y gwasanaeth. Bydd hyn yn helpu arweinwyr i greu darlun cliriach o gynnydd pobl ifanc dros amser a'r gwahaniaeth y mae'r gwasanaeth yn ei wneud i'w deilliannau.

Mae polisïau a gweithdrefnau diogelu ar waith, ac mae'r gwasanaeth ieuenctid yn dilyn y polisi diogelu corfforaethol. Mae gweithdrefnau wedi eu hamlinellu'n glir yn y llawlyfr staff, ac mae pob aelod o staff yn cario cardiau gwybodaeth ddiogelu. Mae'r cardiau hyn yn cynnwys manylion am y person diogelu dynodedig a sut i gysylltu mewn argyfwng, sy'n helpu staff i fynd at wybodaeth allweddol yn gyflym, pan fydd angen.

Mae staff yn ymgymryd â hyfforddiant diogelu priodol. Maent hefyd yn cwblhau hyfforddiant gorfodol arall fel Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) ac Atal, er nad yw staff yn cwblhau hyfforddiant Atal yn gyson. Fodd bynnag, mae cofnodion hyfforddiant staff yn anghywir ac wedi dyddio. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i arweinwyr fonitro a sicrhau eu hunain fod yr holl hyfforddiant diogelu gorfodol wedi'i gwblhau.

Mae gan y gwasanaeth broses drylwyr ar gyfer monitro a chofnodi gwiriadau staff gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Caiff yr holl wiriadau gan y DBS eu hadnewyddu bob tair blynedd, ac mae gwiriadau pob un o'r staff yn gyfredol ar hyn o bryd.

Mae gweithwyr ieuenctid yn cyfrannu'n ystyrlon at ystod o banelau diogelu amlasiantaethol, yn cynnwys y grŵp Pobl sydd Ar Goll, y Camfanteisir Arnynt ac sy'n cael eu Masnachu (MEG). Mae hyn yn helpu'r gwasanaeth i gyfrannu at waith diogelu ehangach trwy lens ddiogelu gyd-destunol.

Mae staff yn grymuso pobl ifanc yn rhagweithiol i'w cadw eu hunain yn ddiogel. Er enghraifft, maent yn gweithio gyda phartneriaid i gyflwyno sesiynau sy'n helpu pobl ifanc i ddeall sut i aros yn ddiogel pan fyddant oddi cartref, yn cynnwys sut i ddefnyddio cludiant cyhoeddus. Mae'r gwaith hwn yn ymateb yn uniongyrchol i bryderon pobl ifanc o'r arolwg

Hapus, Iach, Diogel, lle nododd pobl ifanc nad oeddent bob amser yn teimlo'n ddiogel yn eu cymunedau.

Mae arweinwyr wedi datblygu diwylliant cefnogol ar gyfer dysgu proffesiynol. Mae staff yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd a gânt i fanteisio ar hyfforddiant ac yn teimlo bod rheolwyr yn gwrando ar eu ceisiadau i ddatblygu ymhellach. Gwerthfawrogir y gynhadledd staff flynyddol  gan y gweithlu ac mae'n darparu cyfle defnyddiol i staff ddod at ei gilydd, rhannu arfer a dysgu ar y cyd.

Mae'r Uwch Reolwr wedi blaenoriaethu datblygu arweinyddiaeth ar draws y gweithlu. Caiff staff eu hannog i ddilyn cyrsiau arweinyddiaeth cydnabyddedig, ac mae hyn yn helpu eu grymuso i weithio'n fwy ymreolus ac ymgymryd â chyfran fwy o gyfrifoldeb. Mae'r Uwch Reolwr hefyd wedi defnyddio dull strategol i ymgorffori arfer sy'n ystyriol o drawma ar draws y gwasanaeth, ac mae staff yn ymgymryd â hyfforddiant perthnasol i gefnogi'r gwaith hwn.

Mae'r gwasanaeth yn defnyddio'i system reoli gwybodaeth yn dda i gofnodi cyfranogiad ac yn casglu data am ymgysylltiad pobl ifanc ar draws darpariaeth. Mae arweinwyr a staff yn dechrau dadansoddi'r wybodaeth hon ar gyfer gwaith gwerthuso a nodi bylchau mewn darpariaeth. Mae prosesau cofnodi a monitro yn datblygu ac yn dechrau arwain at gofnodi data yn fwy cyson ar draws y gwasanaeth. Mae ychydig iawn o staff wedi gofyn am fwy o gymorth a hyfforddiant i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chofnodi'n gywir a'i defnyddio'n effeithiol i gefnogi gwerthuso a gwella.

Mae staff yn elwa ar oruchwyliaeth a chymorth rheolaidd. Mae trefniadau'n cynnwys cyfarfodydd tîm, cyfarfodydd un i un, sesiynau dal i fyny ar y safle, trafodaethau lles a chyfleoedd i godi anghenion hyfforddiant. Mae staff ar draws gwahanol feysydd y gwasanaeth yn teimlo'u bod yn cael eu cefnogi'n dda gan reolwyr llinell ac yn gwerthfawrogi'r ymreolaeth a'r gefnogaeth a ddarperir gan yr Uwch Reolwr. Mae arweinwyr hefyd yn cefnogi ei gilydd yn dda ac yn gofyn am gyngor gan gydweithwyr, pan fydd angen, gan gyfrannu at ddiwylliant o ddatrys problemau ar y cyd.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi'r canlyniadau o'r holiaduron i bobl ifanc, ac yn ystyried barn pobl ifanc, staff, a phartneriaid, lle bo'n briodol, trwy'r ymatebion i'r holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cyfarfod â'r prif swyddog ieuenctid / y prif weithredwr, y bwrdd ymddiriedolwyr, uwch reolwyr a rheolwyr canol, staff gwaith ieuenctid unigol, a gwirfoddolwyr i werthuso effaith gwaith y darparwr
- yn cyfarfod â phobl ifanc i drafod eu darpariaeth, gwrando arnynt a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu darparwr
- yn ymweld â sampl eang o sesiynau gwaith ieuenctid, gan gynnwys clybiau ieuenctid, gwaith datgysylltiedig ar y stryd a gweithgareddau yn yr ysgol ar draws y ddarpariaeth, lle bo'n briodol
- yn arsylwi pobl ifanc, ac yn siarad â nhw yn ystod sesiynau darpariaeth
- yn edrych yn agos ar brosesau hunanwerthuso'r darparwr
- yn craffu ar ystod eang o ddogfennau'r darparwr, gan gynnwys gwybodaeth am gyfranogiad a deilliannau dysgwyr, cofnodion cyfarfodydd staff, gwybodaeth am les dysgwyr, gan gynnwys diogelu pobl ifanc, a chofnodion hyfforddiant a dysgu proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu, er mwyn dilysu, cymedroli a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o bobl ifanc…'* neu *'ychydig iawn o bobl ifanc…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y darparwr ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol â Deddf Dysgu a Sgiliau (2000).

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 24/08/2026